Healthcare Inspectorate Wales
agic hiw
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU
GWELLIANT TRWY
AROLYGU
ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol [Â rhybudd]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, **Practis Deintyddol Longford Road**

17 Tachwedd 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN digidol 978-1-4734-2781-5


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Introduction ........ 2
2. Methodology ........ 2
3. Context ........ 4
4. Summary ........ 5
5. Findings ........ 7

    Patient Experience ........ 7

    Delivery of Standards for Health Services in Wales ........ 9

    Management and Leadership ........ 11

    Quality of Environment ........ 13

6. Next Steps ........ 15

    Appendix A ........ 16

## Cyflwyniad

Ar 17 Tachwedd 2014, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gynnal arolygiad â rhybudd o Bractis Deintyddol Longford Road, Heol Longford, Caergybi, Sir Fôn, LL65 1TR, o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio a chleifion
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio cyfarpar a'r eiddo
- Gwybodaeth sydd yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan

---

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar y 1[af] o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru. www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Dadansoddiad o holiaduron cleifion AGIC. Derbyniwyd cyfanswm o 19

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys sy’n codi o arolygiadau deintyddol yn cael eu hysbysu i’r practis a’r bwrdd iechyd drwy lythyr gweithredu brys. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A  yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## Cyd-destun

Mae practis deintyddol Longford Road yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 9,000 o gleifion sy'n byw yn Ynys Môn. Cynhwysir cleifion sy'n teithio o rai o ardaloedd Cyngor Gwynedd. Mae’r practis yn ffurfio rhan o ystod o wasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n darparu gwasanaeth ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

Mae Practis Deintyddol Longford Road yn ganolfan hyfforddiant deintyddol sylfaenol, wedi'i hachredu gan Ddeoniaeth Cymru, lle mae deintyddion newydd gymhwyso'n cyflawni eu hyfforddiant o dan fentoriaeth a goruchwyliaeth y prif ddeintydd, Dr Ntekim. Cymerodd Dr Ntekim dros y practis yn 2011.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy’n cynnwys dau ddeintydd, un deintydd o dan hyfforddiant, dau therapydd deintyddol, saith nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant, ddau dderbynnydd a rheolwr y practis. Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Archwilio, gwneud diagnosis a chynllunio triniaethau (gan gynnwys pelydrau-x)
- Cyngor a thriniaethau ataliol
- Triniaethau clefyd y deintgig (triniaethau periodontol)
- Llenwadau, llenwadau’r gwreiddyn, coronau a phontydd
- Tynnu dannedd (a thriniaethau llawfeddygol eraill)
- Gosod ac atgyweirio cyfarpar deintyddol (dannedd gosod a sblintiau)
- Rhagnodi a chyflenwi meddyginiaethau deintyddol
- Triniaethau cosmetig
- Gwasanaethau glanweithydd

## Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut mae Practis Longford Road yn bodloni'r safonau gofal a geir yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru.

Roedd pob claf a ymatebodd i'r holiaduron, a'r rhai a welsom yn ystod yr arolygiad, yn fodlon ar y gwasanaethau a gynigir yn y practis. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, a gwnaethant gadarnhau bod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt.  Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth ac ystyried dulliau cyfathrebu addas eraill.

Roedd sylwadau cleifion (a roddir trwy ganiatâd) yn cynnwys y canlynol:

> *'Nid oes gennyf yr un gŵyn am staff y practis hwn. Maen nhw bob amser yn gwrtais ac yn barod eu cymorth'.*
>
> *'Roeddwn wedi bod yn glaf preifat gyda deintydd arall, ac ar restr aros y practis hwn am tua chwe blynedd cyn imi glywed bod lle yma. Ers imi ymuno â'r practis hwn, rwyf wedi sylweddoli bod pobl wedi ffonio ar dro siawns yn ystod y chwe blynedd hynny a chael lle. Roeddwn ychydig yn siomedig nad oedd neb wedi cysylltu â mi i ddweud bod lle ar gael. Rwy'n derbyn gwasanaeth da iawn yma'.*
>
> *'Effeithlon iawn.  Mae cael nodyn atgoffa trwy alwad ffôn, neges destun ac e-byst yn barod eu cymorth'.*
>
> *'Yr hyn sy'n dda am y deintyddion hyn yw eu bod yn cymryd eu hamser i esbonio pethau'.*

Ar y cyfan cawsom fod y safon o gadw cofnodion gan bob aelod o staff yn ardderchog.  Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cyfarparu'n dda, ac roedd gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles pobl.  Rydym wedi argymell gwelliannau i rai o'r cyfleusterau a ddefnyddir gan ddeintyddion, glanweithwyr a nyrsys deintyddol.

Roedd y practis wedi'i gynnal gan reolaeth ac arweinyddiaeth gref, a gwelsom fod eu polisïau a'u gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu'n dda.  Roedd cymhelliad a morâl y staff yn dda ac roedd staff yn derbyn digon o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Ar y cyfan roedd y cyfleusterau yn y practis yn dda; roedd yr adeilad wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol, ond gwnaethom awgrymu y bydd angen peth gwaith atgyweirio yn y maes parcio yn y dyfodol agos.

**Canfyddiadau**

## *Profiad y Claf*

**Crynodeb**

**Roedd pob claf a ymatebodd i'r holiaduron, a'r rhai a welsom yn ystod yr arolygiad, yn fodlon ar y gwasanaethau a gynigir gan y practis. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, a gwnaethant gadarnhau bod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt. Gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth ac ystyried dulliau cyfathrebu addas eraill.**

Nid oedd saith o'r 19 o gleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth y tu allan i oriau ac nid oedd 14 yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos ar hysbysfwrdd yn yr ystafell aros, ac yn nhaflen wybodaeth cleifion. Roedd stoc o'r rhain ar gael y dderbynfa. Roedd rhai darnau o wybodaeth mewn print bach. Felly, gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu'r ffordd mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn bennaf yn yr iaith Saesneg. Roedd gwefan y practis a thaflen wybodaeth cleifion yn datgan bod staff sy'n siarad Cymraeg a Saesneg ar gael; clywsom staff yn siarad y ddwy iaith yn ystod y dydd. Esboniodd y prif ddeintydd a rheolwr y practis bod y wybodaeth yn arfer cael ei harddangos yn ddwyieithog, ond nad oedd galw am daflenni Cymraeg. Rydym wedi argymell, fodd bynnag, y dylai'r practis ystyried dewis y claf lle bynnag y bo'n bosibl. Gwnaethom argymell hefyd y dylai'r practis ystyried fformatau eraill ar gyfer pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod ganddynt fynediad at wasanaeth cyfieithu trwy'r bwrdd iechyd lleol.

***Argymhelliad***

**Dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth yn y practis ac ystyried dulliau cyfathrebu addas eraill, yn ôl anghenion a dewisiadau cleifion.**

Gwnaethom siarad â chwe chlaf yn ystod y dydd, a dywedodd y rhan fwyaf ohonynt, yn ogystal â'r cleifion a ymatebodd i'n holiadur, eu bod yn cael eu gweld yn brydlon, neu o fewn ychydig o funudau i amser eu hapwyntiad. O'r pump o bobl a oedd wedi profi oediad, dywedodd tri ohonynt fod hyn yn oediad byr, neu nad oedd wedi achosi unrhyw broblemau; ni wnaed unrhyw sylwadau ychwanegol gan y ddau glaf arall. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu gweld ar amser neu ychydig cyn amser eu hapwyntiad ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o holiaduron cleifion y practis wedi'i gwblhau. Nid oedd dyddiad arnynt ond dywedodd rheolwr y practis iddynt gael eu dosbarthu i gleifion yn ystod 2013. Roedd cwestiynau yn perthyn i foddhad cleifion ar eu deintyddion, y staff a'r gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau o holiaduron eraill i gleifion a oedd yn trafod nifer o feysydd bach eraill gan gynnwys barn y cleifion am yr adeilad a'r system apwyntiadau. Hyd yn hyn, nid oedd y rhain wedi cael eu dosbarthu a chytunodd rheolwr y practis i ffurfioli system fwy cadarn er mwyn casglu adborth cleifion a dogfennu camau gweithredu a chanlyniadau sy'n codi.

Nid oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u derbyn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond roedd tystiolaeth bod rheolwr y practis a'r prif ddeintydd yn cymryd barn cleifion o ddifri. Gwelsom fod tri chlaf wedi gwneud cwyn dros y flwyddyn ddiwethaf ond wedi gwrthod y cynnig i ystyried y rhain o dan weithdrefnau cwyno'r practis. Ac eithrio un nodyn wedi ei ysgrifennu â llaw – ac roedd rheolwr y practis yn bwriadu ei gofnodi ar y system ar unwaith – roedd manylion llawn y pryderon wedi'u cofnodi, gan gynnwys y canlyniad a'r camau gweithredu a gymerwyd.

Gwnaethom edrych ar weithdrefnau cwyno'r practis a gweld eu bod yn ystyried cleifion preifat a chleifion y GIG. Roedd gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt sefydliadau perthnasol fel AGIC, y bwrdd iechyd lleol a'r Gwasanaethau Cwynion Deintyddol. Roedd yr amserlenni ar gyfer datrys cwynion yn unol â threfniadau 'Gweithio i Wella' y GIG[2]

[2]Cleifion y GIG: 'Gweithio i Wella' yw'r drefn ar gyfer ymdrin ac ymateb i bryderon yng ngwasanaethau'r GIG, ac fe'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2011.
Cleifion preifat: Sefydlwyd y Gwasanaethau Cwynion Deintyddol i roi cymorth i gleifion preifat sy'n dymuno gwneud cwyn – http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/localservices/dentistfaq/#complaint.

## *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Crynodeb**

**Ar y cyfan cawsom fod y safon o gadw cofnodion gan bob aelod o staff yn ardderchog. Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cyfarparu'n dda, ac roedd gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles pobl. Rydym wedi argymell gwelliannau i rai o'r cyfleusterau a ddefnyddir gan ddeintyddion, glanweithwyr a nyrsys deintyddol.**

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfrifiadurol 15 claf (gan samplu tri chofnod gan bob deintydd a glanweithydd deintyddol) yn ogystal ag edrych ar naw set o gofnodion clinigol papur. Cawsom fod y safon o gadw cofnodion gan bob aelod o staff yn ardderchog; roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol am gleifion, eu hanes meddygol a chymdeithasol, ffurflenni cydsynio a chynlluniau triniaeth. Roedd atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol eraill, ar gyfer cleifion sydd angen triniaethau arbennig, wedi'u dilyn gan y camau cywir. Roedd y canlyniad, unwaith yr oedd yn hysbys, hefyd yn cael ei gofnodi. Nid oedd ffurflenni meddygol cychwynnol wedi'u eu cydlofnodi gan y deintyddion. Fodd bynnag, roedd y ffurflenni hyn wedi'u mewnbynnu i'r system gyfrifiadurol gan y deintyddion eu hunain. Dywedodd y deintyddion y byddai'r system hon yn golygu y byddent yn adolygu'r wybodaeth.

Ar y cyfan, roedd cofnodion clinigol wedi'u trefnu'n dda, gan gynnwys y ffeil a oedd yn gynnwys y gwiriadau ymbelydredd, cynnal a chadw cyfarpar a hyfforddiant staff o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Roedd y system ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben meddyginiaethau'n effeithiol. Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, rydym wedi argymell y dylid lleoli'r switsys ynysu y tu allan i'r ddwy ystafell driniaeth berthnasol. Yn ogystal, dylai'r practis ystyried symud y panel rheoli pelydr-x yn agosach at ddrws un o'r ystafelloedd triniaeth i osgoi estyn y wifren.

Ar adeg yr arolygiad roedd y practis wedi cael pris am osod cyfleusterau golchi dwylo yn yr ystafell ddadheintio. Yn y cyfamser gwnaethom argymell camau dros dro ar gyfer y cyfleusterau presennol, a fyddai'n ei gwneud yn bosibl neilltuo un sinc ar gyfer golchi dwylo yn unig, yn unol â'r canllawiau[3]. Rydym wedi argymell y dylai'r practis ystyried prynu math gwahanol o offer sterileiddio

[3] Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05

(awtoclaf) i sterileiddio offerynnau llaw sydd â lwmen, gan nad yw'r un presennol yn addas ar gyfer y dasg hon[4]. Fel arall dylid prynu offerynnau llaw ychwanegol. Pan drafodwyd hyn â'r prif ddeintydd, daeth i'r golwg bod eisoes stoc o offerynnau llaw ychwanegol. Gwnaethom argymell, felly, y dylent ddechrau defnyddio'r rhain ar unwaith, a sterileiddio'r darnau rhwng cleifion. Gwelsom fod pennau'r offerynnau llaw yn cael eu sterileiddio mewn ffordd briodol.

***Argymhelliad***

***Dylid sterileiddio offerynnau digennu uwchsonig llaw rhwng pob claf***

***Dylid ystyried prynu cyfarpar addas er mwyn gwella'r broses sterileiddio ar gyfer offerynnau llaw sydd â lwmen, gan nad yw'r awtoclaf yn addas ar gyfer y dasg hon***

Roedd yr uned sugno symudol yn hen ac efallai y bydd angen ei newid yn y dyfodol agos. Cytunodd y prif ddeintydd i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Cawsom fod meddyginiaeth frys yn cael ei chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Fodd bynnag, nid oedd glwcos ar gael ar ffurf gel, ac nid oedd Midazolam ar gael ar ffurf hylif, fel yr argymhellir yn y canllawiau[5].

***Argymhelliad***

***Adolygu'r canllawiau ar feddyginiaeth frys i bractisau deintyddol i sicrhau bod yr holl feddyginiaeth berthnasol ar gael fel yr argymhellir***

---

[4] Y darn tiwbwlar o offeryn deintyddol llaw yw lwmen. Mae WHTM 01-05 yn rhoi canllawiau i bractisau deintyddol ar y mathau o offer sterileiddio a argymhellir ar gyfer offerynnau gwahanol, gan gynnwys offerynnau llaw sydd â lwmen.

[5] Rhestr feddyginiaeth frys Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain ar gyfer practisau deintyddol.

## *Arweinyddiaeth a Rheolaeth*

Crynodeb

**Roedd y practis yn cael ei gynnal gan reolaeth ac arweinyddiaeth gref, a gwelsom fod y polisïau a'u gweithdrefnau wedi'u hysgrifennu'n dda. Roedd cymhelliad a morâl y staff yn dda ac roedd staff yn derbyn digon o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.**

Gwnaethom edrych ar nifer o bolisïau a gweithdrefnau a chawsom fod y rhain yn hawdd eu darllen a'u dilyn. Roeddent y cynnwys canllawiau priodol ar gyfer aelodau o staff wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau penodol. Roedd gweithdrefnau'n cyfeirio at ganllawiau a deddfwriaethau arall, er enghraifft y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Diogelu Data 1998. Lle y bo'n berthnasol, roeddent hefyd yn cynnwys manylion cyswllt amryw sefydliadau, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r awdurdod lleol. Roedd aelodau o staff wedi llofnodi a chadarnhau eu dealltwriaeth o'r polisïau hyn, a'u hymlyniad wrthynt. Gwelsom fod rhai polisïau'n cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), rheoleiddwyr gofal iechyd a chymdeithasol yn Lloegr a'r Memorandwm Technegol Iechyd. Gwnaethom argymell i'r prif ddeintydd a rheolwr y practis y dylent gyfeirio at bolisïau a sefydliadau sy'n addas yng Nghymru, er enghraifft AGIC a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM).

Gwnaethom siarad â nifer o aelodau o staff, gan gynnwys derbynnydd, deintyddion, nyrsys deintyddol a rheolwr y practis. Dywedodd pob aelod o staff eu bod yn hapus yn eu swydd a'u bod yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd staff yn siarad yn gadarnhaol am y prif ddeintydd, a gymerodd drosodd yn 2011, a rheolwr y practis, a oedd wedi gweithio yno ers 1999, gan ychwanegu bod y practis bellach yn fwy modern a bod staff yn clywed am y datblygiadau diweddaraf. Mae'r prif ddeintydd yn aelod o'r Cyngor Deintyddol Lleol (LDC) a Chymdeithas Ddeintyddol Prydain.

Gwelsom sampl o gofnodion cyfarfodydd staff a gynhelir bob mis. Roedd rhai o'r cofnodion yn cynnwys manylion da o'r hyn a drafodwyd a'r canlyniad y cytunwyd arno, ond roedd diffyg gwybodaeth yn y cofnodion eraill yn hyn o beth.. Felly, gwnaethom argymell bod angen cysondeb gwell wrth lunio cofnodion cyfarfodydd staff er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys digon o wybodaeth, gan gynnwys y canlyniad a thystiolaeth o'r hyn a ddysgir o'r cyfarfodydd hyn. Awgrymodd aelodau o staff eu bod i gyd yn cyfrannu yn weithredol yn ystod cyfarfodydd; roeddent yn cael eu cynnwys o ran sut i reoli'r practis ac roeddent yn teimlo fel aelodau gwerthfawr o'r tîm. Gwnaethom

siarad am amryw ddigwyddiadau datblygu tîm/ysgogiadol, wedi'u hwyluso gan y prif ddeintydd. Roeddem yn teimlo bod cymhelliad a morâl y staff yn dda.

Gwnaethom edrych ar gofnodion staff a gweld rhaglen sefydlu pedair wythnos ar gyfer y cyflogai mwyaf diweddar, a ddechreuodd yn ei swydd yn ystod haf 2013. Gwnaethom siarad â'r aelod hwn o staff, a chadarnhaodd fod y broses sefydlu a'r gefnogaeth barhaus yr oedd yn ei derbyn yn dda, ac wedi ei alluogi i ymgyfarwyddo â'i rôl yn y tîm. Cadarnhaodd aelodau eraill o staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn derbyn digon o gyfleoedd i gwrdd â'u hamcanion datblygiad proffesiynol parhaus (CPD), a gwelsom amryw dystysgrifau hyfforddi am gyrsiau mae'r staff wedi eu mynychu dros y blynyddoedd diwethaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Crynodeb**

**Ar y cyfan, roedd y cyfleusterau yn y practis yn dda. Roedd yr adeilad i'w weld wedi'i gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol, ond gwnaethom roi adborth ar waith a fydd ei angen efallai yn y maes parcio yn y dyfodol agos.**

Lleolir y practis o fewn pellter cerdded i ganol tref Caergybi. Ar hyn o bryd, mae'r practis yn rhannu maes parcio â'r feddygfa meddyg teulu drws nesaf, ac o'r herwydd mae lleoedd parcio'n gyfyngedig. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad eu bod wedi llwyddo i gael lle parcio cyfagos. Roedd pobl sydd ag anableddau'n gallu defnyddio'r maes parcio dynodedig y tu allan i'r practis deintyddol, a dywedodd un claf y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfleuster hwn.

Roedd modd mynd i mewn i'r practis gan ddefnyddio nifer o risiau bach, neu ramp a oedd â chanllaw ar un ochr. Roedd y ddau ddrws i'r adeilad yn fwy llydan na drysau arferol, a oedd yn galluogi mynediad haws i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, nid oedd y drysau hyn, y ddau ohonynt â gris isel, yn agor yn awtomatig. Gallai hyn achosi problemau ar gyfer rhai cleifion. Cadarnhaodd rheolwr y practis nad oedd neb, hyd yn hyn, wedi dweud bod problemau ynglŷn â chael mynediad i'r practis, a bod staff ar gael pe bai angen cymorth ar gleifion.

Roedd y practis, a oedd i gyd ar y llawr daear, yn cynnwys derbynfa gaeedig, ystafell aros weddol ei maint, pum ystafell driniaeth, swyddfa a thoiledau staff a chleifion ar wahân. Gwelsom fod toiled y cleifion yn fach ac felly yn anhygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Gwelsom fod yr ystafell aros yn daclus ac yn rhydd o annibendod. Roedd dau hysbysfwrdd ac arnynt wybodaeth wedi'i harddangos yn drefnus. Roedd rhannau o'r wybodaeth mewn print bach a heb fod yn amlwg; rydym wedi gwneud argymhellion ynglŷn â hyn eisoes ar dudalen chwech o'r adroddiad hwn. Roedd cylchgronau wedi'u harddangos yn drefnus mewn rac cylchgronau, a chornel y man aros wedi'i chynllunio ar gyfer plant ifanc, a oedd yn cynnwys llyfrau a darnau mawr o lego. Gwnaethom edrych ar raglen lanhau'r practis a gweld ei bod yn cynnwys glanhau ychwanegol ar gyfer yr ardal hon. Dylai hyn helpu i leihau achosion o groes-heintio. Roedd set deledu ar y wal a oedd ymlaen yn ystod yr arolygiad; dywedodd un o'r cleifion eu bod yn hoffi edrych ar y teledu tra ei fod yn aros am apwyntiad. Roeddwn yn teimlo bod yr ystafell aros ychydig yn oer ar ddiwrnod yr arolygiad. Fodd bynnag, dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddigon cynnes.

Roedd yr adeilad yn elwa o fesurau diogelwch ychwanegol; er enghraifft, roedd larwm ar yr adeilad, a barrau diogelwch wedi'u gosod ar y ffenestri allanol. Roedd drysau o farrau y gellir eu cloi dros y drysau ffrynt. Roedd y rhain ar agor yn ystod oriau agor y practis ac yn cael eu cloi ar ddiwedd y dydd.

Roedd tystiolaeth o ychydig o ddifrod yn y maes parcio a achoswyd gan y tywydd. Gwnaethom ddweud wrth y prif ddeintydd am fonitro hyn a threfnu’r gwaith atgyweirio angenrheidiol pan fydd angen.  Dylai hyn leihau’r risg o gleifion yn cwympo neu’n baglu wrth iddynt fynd i mewn i'r adeilad trwy'r maes parcio.

**Camau Nesaf**

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Profiad Cleifion a chyflawni Safonau gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru . Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A o'r adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwelliannau ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Longford Road yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses barhaus o arolygu deintyddol.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Longford Road

## Dyddiad yr Arolygiad: 17 Tachwedd 2014

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 6 | **Dylai'r practis adolygu sut yr arddangosir gwybodaeth yn y practis ac ystyried dulliau cyfathrebu addas eraill, yn ôl anghenion a dewisiadau cleifion.** | | | |
| | **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | **Dylid sterileiddio offerynnau digennu uwchsonig llaw rhwng pob claf** | | | |
| 9 | **Dylid ystyried prynu cyfarpar addas er mwyn gwella'r broses sterileiddio ar gyfer offerynnau llaw sydd â lwmen, gan nad yw'r awtoclaf yn addas ar gyfer y dasg** | | | |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **hon** | | | |
| 9 | **Dylid cadw glwcos ar ffurf gel a Midazolam ar ffurf hylif.** | | | |
| | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| | A | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | A | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (wedi'i brintio):.....................................................................................**

**Teitl: .....................................................................................**

**Llofnod:.....................................................................................**

**Dyddiad:** ..........................................................................................